

CYMRAEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Cynllun gweithredu 2020-21

Croeso!

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Cynllun gweithredu 2020-21

Cynulleidfa

Adrannau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau'r sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysg yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartïon eraill â diddordeb.

Trosolwg

Dyma gynllun gweithredu Gweinidogion Cymru ar gyfer 2020-21, a baratowyd yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n esbonio sut byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn eu strategaeth, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cynllun gweithredu yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu'r strategaeth a nodwyd yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017-21*, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Strategaeth Cymraeg 2050.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

 [@Cymraeg](https://twitter.com/Cymraeg)

 [Facebook/Cymraeg](https://www.facebook.com/Cymraeg)

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/y-gymraeg

Dogfennau cysylltiedig

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017-21* (2017); *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011-2050* (2017); *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21* (2017); *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021* (2016)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	3
Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg	17
Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun	23

Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, ym mis Gorffennaf 2017. Cyhoeddwyd y ddogfen *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* ar y cyd â Strategaeth *Cymraeg 2050* ac mae'n cynnwys amcanion ar gyfer pedair blynedd cyntaf y strategaeth.

Mae Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r cynigion a amlinellir yn Strategaeth *Cymraeg 2050* yn ystod pob blwyddyn ariannol. Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer 2020–21.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn adlewyrchu themâu *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

- **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
- **Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**
- **Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

Mae'r pwyntiau gweithredu ar gyfer y flwyddyn adrodd 2020-21 wedi'u gosod yn erbyn yr amcanion fel y'u nodwyd yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr a Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21*.

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Targed: Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.

1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu

Ein nod: rhoi'r cychwyn gorau yn yr iaith i'n plant drwy gynyddu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
1.1 Cydweithio â'r prif randdeiliaid i ddatblygu polisi cenedlaethol sy'n seiliedig ar waith ymchwil diweddar yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael y cymorth gorau posibl i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.	Ym mis Chwefror 2020, lansiwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddrafft o'n <i>Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd</i>. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ddechrau mis Mai. Wedi ystyried yr ymatebion, byddwn yn mynd ati wedyn i gyhoeddi a gweithredu fersiwn derfynol o'r polisi. Bydd y polisi yn sail i'n gwaith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau.
1.2 Adolygu a mireinio Rhaglen Cymraeg i Blant i sicrhau ein bod yn parhau i roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar rieni/gofalwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch cyflwyno'r Gymraeg i'w plentyn yn y cartref.	Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gefnogaeth y mae'r rhaglen Cymraeg i Blant yn ei gynnig i deuluoedd ddefnyddio mwy o Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y rhaglen yn adlewyrchu nodau'r polisi arfaethedig ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd, yr ydym yn anelu at ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn adrodd.
1.3 Parhau i weithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod bydwagedd, ymwelwyr iechedd a phartneriaid eraill yn	Byddwn yn parhau i gydweithio gyda GIG Cymru er mwyn rhannu gwybodaeth gyda rhieni a darpar rieni am drosglwyddo iaith yn ogystal â'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt ddefnyddio mwy o Gymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
rhannu gwybodaeth am fanteision trosglwyddo'r iaith mor gynnar â phosibl, a bod rhieni newydd a darpar rieni yn deall y gefnogaeth sydd ar gael iddynt.	

2. Y blynyddoedd cynnar

Ein nod: ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
Carreg filltir: Cefnogi'r gwaith o ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 40 yn fwy o grwpiau meithrin erbyn 2021 er mwyn hwyluso dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg, a hynny er mwyn cyrraedd 150 yn fwy o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf.	Drwy gydweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin, consortiwm CWLWM, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, byddwn yn parhau i ehangu a chryfhau'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.
2.1 Gweithredu'r Cynnig Gofal Plant ar draws Cymru, gan sicrhau mwy o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg dan nawdd y llywodraeth, a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail yr wybodaeth a ddaw i law yn ystod cyfnod gweithredu cynnar y cynnig o fis Medi 2017.	A'r Cynnig Gofal Plant wedi'i gyflwyno'n llawn bellach, byddwn yn gweithio gyda darparwyr i gryfhau ac ehangu'r gwasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i deuluoedd. Bydd elfen benodol o'n hymgyrch gyfathrebu ynghylch y Cynnig yn ceisio cynyddu cyfran y teuluoedd sy'n dewis defnyddio darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ar brosiectau a gyllidir gan gyfalaf gwerth mwy na £35m er mwyn gwella'r cyfleusterau gofal plant presennol a datblygu cyfleusterau newydd.
2.2 Parhau i gefnogi'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg bresennol gan gynorthwyo darparwyr i ehangu a dod yn hunan-	Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith Mudiad Meithrin er mwyn iddynt allu gweithio gyda'u haelodaeth gyfredol i gryfhau ac ehangu'r gwasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg. Bydd rhaglen arbennig hefyd yn parhau i ganolbwyntio'n benodol ar sefydlu darpariaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd lle ceir diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd. Bydd

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
gynhaliol, yn ogystal â chefnogi ehangu'r ddarpariaeth i greu 40 yn fwy o grwpiau meithrin gan dargedu mannau wedi'i hadnabod trwy weithgarwch y Cynnig Gofal Plant lle mae'r ddarpariaeth yn dameidiog ar hyn o bryd.	y gwaith hwn yn cael ei blethu gyda'n rhaglenni cyfalaf (gweler 2.1 uchod).
2.3 Drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, cydweithio ag awdurdodau lleol a darparwyr i wella'r cynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar, er mwyn hwyluso'r dilyniant rhwng grwpiau meithrin Cymraeg ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg.	Mae rheoliadau newydd y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2020, yn anelu at gryfhau'r cyswllt rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg statudol. Byddwn yn cydweithio gydag awdurdodau lleol, gan gynnwys er mwyn rhannu gwybodaeth gynhwysfawr am ddefnydd teuluoedd o wasanaethau Mudiad Meithrin, fel y gall awdurdodau lleol gynllunio i sicrhau cysylltiadau cryf rhwng gwasanaethau blynyddoedd cynnar ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg.

3. Addysg statudol

Ein nod: creu system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
Carreg filltir: Cynnydd yng nghanran y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22 y cant (sy'n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 24 y cant (tua 8,400) erbyn 2021, a hynny er mwyn bod ar y trywydd iawn i gyrraedd 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2031 ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp oedran) erbyn 2050.	Ymgynghorwyd ar reoliadau drafft Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a'r canllawiau drafft cysylltiedig rhwng Mai a Medi 2019. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliwyd hefyd bedwar digwyddiad ymgynghori gyda thua chant o randdeiliaid yn mynychu. Gosodwyd y rheoliadau ar 5 Rhagfyr 2019 a daethant i rym ar 1 Ionawr 2020. Mae'r trefniadau newydd ar gyfer awdurdodau lleol yn cynnwys cyflwyno cynlluniau strategol tymor hwy (10 mlynedd) yn ogystal â chynlluniau wedi'u paratoi ar sail targedau clir ac uchelgeisiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r targedau wedi'u cyfrifo fel eu bod yn cyfateb i gerrig milltir addysg <i>Cymraeg 2050</i> i gynyddu canran y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg i 30% erbyn 2031.
3.1 Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a chyhoeddi cyn diwedd 2017, polisi cenedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg yn ein system addysg statudol, yn seiliedig ar waith ymchwil a thystiolaeth.	Byddwn yn parhau i weithredu <i>Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21</i> yn ystod 2020-21, gan sicrhau fod y Gymraeg yn ganolog i'r diwygiadau ym maes addysg.
3.2 Datblygu un continwrm o addysgu a dysgu Cymraeg i'w gyflwyno fel rhan o'r	Cyhoeddwyd <i>Cwricwlwm i Gymru</i> fis Ionawr 2020: https://hwb.gov.wales/ Un o Bedwar Diben y Cwricwlwm yw bod pob dysgwr yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu gydol ei fywyd. Un o

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
cwricwlwm newydd ym mhob ysgol yng Nghymru a sicrhau bod y gwaith o asesu ac arholi sgiliau Cymraeg a gwybodaeth am y Gymraeg yn gwbl gysylltiedig â'r addysgu a'r dysgu.	nodweddion hyn yw'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae Cymraeg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, ynghyd â Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill. Mae Disgrifiadau Dysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad yn seiliedig ar gontinwmm dysgu, ac yn ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu maen nhw'n dechrau gydag ychydig neu ddim iaith ac yn dangos cynnydd tuag at hyfedredd. Nid yw hyn yn golygu'r un disgwyliadau yn union i bob dysgwr ym mhob iaith maen nhw'n ei dysgu yn yr ysgol – ceir rhai Disgrifiadau Dysgu sy'n gyffredin i bawb ac eraill sy'n wahanol er mwyn adlewyrchu'r dysgu a'r addysgu mewn gwahanol gyd-destunau dysgu iaith. Bydd ysgolion ac ymarferwyr yn datblygu eu cwricwla i sicrhau bod pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg ar hyd y continwmm dysgu iaith. Nawr bod y canllawiau wedi'u cyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gefnogi ysgolion i gynllunio a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm. Y bwriad yw cyhoeddi ein cynllun gwireddu'r Cwricwlwm yn amlinellu ymhle ddylai ysgolion ganolbwyntio eu hymdrechion ar bwyntiau gwahanol hyd at 2022 a sut fyddwn ni, y consortia rhanbarthol ac eraill yn cefnogi hynny. Mae swyddogion eisoes yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol ac Estyn i sefydlu rhwydweithiau cenedlaethol o ymarferwyr ac arbenigwyr i rannu arbenigedd a dysgu ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer cefnogi'r proffesiwn. Byddwn yn creu fframwaith deddfwriaethol clir i ategu'r cwricwlwm newydd. Bydd yn cynnig llawer mwy o hyblygrwydd o ran beth i'w addysgu a sut y caiff ei addysgu o fewn disgwyliadau cenedlaethol clir ar gyfer cwmpas a dilyniant. Bydd y fframwaith deddfwriaethol yn sicrhau bod disgwyliad cenedlaethol cyson ar gyfer cwmpas y cwricwlwm a disgwyliadau o ran cynnydd. Ar 7 Chwefror 2020, daeth y cyntaf mewn cyfres o ymgynghoriadau Cymwysterau Cymru, <i>Cymwys ar gyfer y dyfodol</i>, i ben. Ymhlith prif gynigion yr ymgynghoriad roedd: sefydlu set o egwyddorion i lywio sut bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu pa gymwysterau a gymerir yn 16 oed ddylai fod yn gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus; ail-ddylunio cymwysterau TGAU (h.y. cadw brand TGAU) fel eu bod yn rhan ganolog o'r cynnig cymwysterau i bobl ifanc 16 oed yng Nghymru; a chreu cymhwyster penodol sy'n cefnogi'r broses o

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
	ddatblygu ac asesu'r sgiliau ehangach a ddiffinnir yn y cwricwlwm newydd. Cynigir hefyd y dylai pob cymhwyster ac asesiad newydd a ariennir yn gyhoeddus fod yn Gymraeg a Saesneg. Bydd Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y cymwysterau i'w datblygu yn 2020. Bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar ddyluniad manwl y cymwysterau newydd yn 2021.
3.3 Sefydlu bwrdd annibynnol i roi cyngor ar newidiadau i brosesau cynllunio addysg Gymraeg.	Daeth cyfnod y Bwrdd Cynghori Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) i ben ym mis Mawrth 2019. Cyhoeddwyd adroddiad y Bwrdd 'Gwellu cynllunio addysg cyfrwng Gymraeg – Argymhellion y Bwrdd Cynghori CSCA' ym mis Mai 2019. Nododd yr adroddiad yr angen i gryfhau'r fframwaith statudol ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg drwy gyfrwng y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn cyfrannu at ein huchelgais hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Mae gwneud rheoliadau newydd ar gyfer y CSCA yn ymateb i brif argymhelliad adroddiad y Bwrdd i gryfhau'r fframwaith deddfwriaethol. Bydd 2020-21 yn canolbwyntio ar weithredu un o argymhellion eraill yr adroddiad, sef diwygio'r modd y dynodir ysgolion yng Nghymru yn ôl eu darpariaeth Gymraeg.
3.4 Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i gynllunio addysg Gymraeg.	Gosodwyd Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ar 5 Rhagfyr 2019, a daethant i rym ar 1 Ionawr 2020. I awdurdodau lleol, bydd 2020 yn gyfnod o baratoi ac ymgynghori ar gynlluniau drafft newydd. Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau yn ystod 2020/21 wrth iddynt baratoi eu cynlluniau drafft. Bydd y cynlluniau newydd yn cychwyn yn 2021. Byddwn yn hwyluso Seminar(au) CSCA gan ddefnyddio technoleg neu fforymau digidol lle'n bosib, i roi'r cyfle i unrhyw un sy'n ymwneud â rhoi'r cynlluniau ar waith i rannu arferion da, a dysgu mwy am egwyddorion cynllunio a hyrwyddo iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Y nod fydd meithrin gwell dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ac anghenion pob dysgwr Cymraeg a'u diwallu'n well.
3.5 Creu'r galw am addysg cyfrwng Gymraeg drwy gynllunio uchelgeisiol, a	Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y prosiectau cyfalaf gydol y flwyddyn, gan nodi unrhyw newidiadau o ran amserlen a gwariant. Byddwn yn parhau i gynnig mewnbwn i Raglen Ysgolion yr 21ain

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
phennu targedau cyraeddadwy ond realistig, gan wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd eisoes gennym. Gallai hyn gynnwys buddsoddi cyfalaf drwy'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.	Ganrif drwy'r broses asesu yn y Grŵp Craffu Achosion Busnes a'r Panel Buddsoddi Cyfalaf.
3.6 Adolygu'r diffiniadau a'r categorïau ar gyfer ysgolion yng Nghymru yn unol â'r iaith addysgu.	Bydd y gwaith ymchwil sydd wedi'i gwblhau ar ddynodi ysgolion yn cael ei ddefnyddio i fwydo i mewn i ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion ar ddynodi ysgolion yn unol â'u darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod 2020.
3.7 Adolygu'r broses ar gyfer cynyddu cyfran yr addysgu a'r dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.	Yn ystod mis Rhagfyr 2019, derbyniwyd adroddiad gydag argymhellion i ddiwygio'r modd y dynodir ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion polisi yn ystod 2020/21 i ddiwygio'r trefniadau presennol. Mae cynllun peilot "e-sgol" yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru fanteisio ar ddewis cynyddol o bynciau hyd at TGAU / Safon Uwch. Y bwriad yw ehangu'r cynllun i fwy o ysgolion yn ystod 2020/21.
3.8 Cadarnhau ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg, yn y sector cynradd ac uwchradd, drwy ddarpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid.	Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ac yn monitro'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer hwyrddyfodiaid. Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gynlluniau CSCA drafft newydd yn ystod 2020, bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol nodi'r trefniadau o ran eu darpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg.
3.9 Datblygu ymgyrchoedd marchnata creadigol i gynyddu'r galw am	Byddwn yn hwyluso Seminar(au) CSCA gan ddefnyddio technoleg neu fforymau digidol lle'n bosib, i roi'r cyfle i unrhyw un sy'n ymwneud â rhoi'r cynlluniau ar waith i rannu arferion da, a dysgu mwy am egwyddorion cynllunio a hyrwyddo iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Y nod fydd meithrin

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
addysg cyfrwng Cymraeg.	gwell dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ac anghenion pob dysgwr Cymraeg a'u diwallu'n well. Rydym yn gweithio ar strategaeth farchnata genedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg gyda phartneriaid a phobl sy'n gweithio o fewn y maes dysgu. Rydym yn creu negeseuon am fanteision y Gymraeg i'w rhannu gydag awdurdodau lleol a phartneriaid. Rydym wrthi'n lansio ymgyrch i annog pobl ifanc i feddwl am y Gymraeg wrth ddewis pynciau Lefel A.
3.10 Cryfhau'r cysylltiadau ag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, darparwyr y blynyddoedd cynnar a'r sector ôl-16 er mwyn gwella'r cyfraddau dilyniant rhwng gwahanol gyfnodau addysg.	Byddwn yn hwyluso Seminar(au) CSCA gan ddefnyddio technoleg neu fforymau digidol lle'n bosib, i roi'r cyfle i unrhyw un sy'n ymwneud â rhoi'r cynlluniau ar waith i rannu arferion da, a dysgu mwy am egwyddorion cynllunio a hyrwyddo iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Y nod fydd meithrin gwell dealltwriaeth o ddwyieithrwydd ac anghenion pob dysgwr Cymraeg a'u diwallu'n well. I awdurdodau lleol, bydd 2020 yn gyfnod o baratoi ac ymgynghori ar gynlluniau drafft newydd. Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau yn ystod 2020/21 wrth iddynt baratoi eu cynlluniau drafft. Bydd y Cynlluniau newydd yn cychwyn yn 2021. Gweler hefyd 4.1.

4. Addysg ôl-orfodol

Ein nod: datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
4.1 Ymateb i argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan roi sylw penodol i'r cyfraddau sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, a datblygu addysg a sgiliau dwyieithog sy'n ymateb i anghenion yr economi.	Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i wireddu'r <i>Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg</i>. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i wreiddio addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach a phrentisiaethau, yn unol â Chynllun Strategol pum mlynedd y Coleg, a lansiwyd ym mis Chwefror 2020. Byddwn yn ystyried gosod mesurau perfformiad ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ar gyfer y sector ôl-16 er mwyn parhau i gofnodi twf y niferoedd sy'n derbyn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
4.2 Parhau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog addysg bellach o ran y cyrsiau sydd ar gael a niferoedd y myfyrwyr sy'n eu dilyn.	Law yn llaw â datblygu'r cynllun gweithredu, byddwn yn cydweithio â Changen Cynllunio a Chyllido Ôl-16 y Llywodraeth i osod cyfeiriad ar gyfer cynyddu darpariaeth, ac yn cyhoeddi data ar fesurau perfformiad pwrpasol.
4.3 Sicrhau bod mwy o ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn cael y cyfle i gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfle hwnnw, gan gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu haddysg, ni	Law yn llaw â datblygu'r cynllun gweithredu, byddwn yn cydweithio â Changen Cynllunio a Chyllido Prentisiaethau y Llywodraeth i osod cyfeiriad ar gyfer cynyddu darpariaeth, ac yn cyhoeddi data ar fesurau perfformiad pwrpasol.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
waeth pa mor rhugl ydynt.	
4.4 Datblygu ymgyrchoedd marchnata drwy gydweithio â chyflogwyr i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth sgiliau dwyieithog yn y gweithle.	Bydd cynllun gweithredu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnwys gwaith i farchnata manteision dwyieithrwydd i bobl ifanc wrth ddewis eu llwybrau addysg a hyfforddiant.
4.5 Drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ehangu darpariaeth Cymraeg i Oedolion i gynnwys mwy o hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle.	Bydd y rhaglen Cymraeg Gwaith yn parhau yn ystod 2020-21. Bydd cyrsiau pellach wedi'u teilwra i anghenion sectorau penodol ar gael yn ystod y flwyddyn gan gynnwys darpariaeth ar-lein a dysgu o bell.

5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Ein nod: cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:

- y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
Cerrig milltir • Cynnydd yn nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,100 erbyn 2021. • Cynnydd yn nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu Cymraeg o 500 i 600 erbyn 2021, a'r nifer sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 2,200 erbyn 2021.	Byddwn yn parhau i gymryd nifer o gamau yn ystod 2020-21 i gefnogi'r nod o gynyddu nifer yr athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â'r datblygiadau o ran addysg gychwynnol athrawon (AGA) a chyfleoedd dysgu proffesiynol i'r gweithlu (gweler 5.3 a 5.4), byddwn hefyd yn: • ariannu gweithgareddau gyda'r nod o gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch, er mwyn cynyddu'r pwll o unigolion a all barhau i astudio'r Gymraeg fel gradd ac i hyfforddi i fod yn athrawon Cymraeg • cynnal cwrs pontio i ddarparu cefnogaeth i athrawon sydd wedi cymhwyso i addysgu yn y sector cynradd i symud i addysgu yn y sector uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg • cydweithio â'r darparwyr AGA, Cyngor y Gweithlu Addysg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo addysgu fel gyrfa a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu gyrfa yn y sector cyfrwng Cymraeg.
5.1 Ehangu cynllun hyfforddiant cenedlaethol y Mudiad Meithrin i sicrhau fod mwy o unigolion yn cymhwyso i allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector gofal plant.	Bydd rhaglen 'Academi' yn parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd datblygu proffesiynol i weithwyr a gwirfoddolwyr. Bydd Mudiad Meithrin yn cynnig rhaglen brentisiaeth newydd fel rhan o bartneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru yn ystod 2020-21. Bydd y rhaglen hon yn cynnig cyfle i weithwyr ennill Diploma Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn cydweithio gyda CWLWM sef y consortiwm sefydliadau gofal plant a chwarae, i gynnig cyfleoedd i weithwyr ddatblygu eu sgiliau yng nghyd-destun eu gwaith drwy raglen 'Camau'.
5.2 Datblygu dealltwriaeth glir o sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a'i	Y bwriad yw cyhoeddi gwybodaeth o'r Cyfrifiad Blynnyddol o'r Gweithlu Ysgol yn ystod yr haf. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o sgiliau Cymraeg y gweithlu a'r defnydd a wneir o'r sgiliau hynny yng nghyd-destun anghenion ysgolion.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
allu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynllunio'r gweithlu.	Hefyd, byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i drafod sut all y data lywio polisiâu a chynorthwyo i gynllunio'r gweithlu yn effeithiol.
5.3 Sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant ac addysg cychwynnol athrawon y dyfodol yn meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o'r Gymraeg ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg a'u harbenigedd i addysgu drwy'r Gymraeg.	Cychwynnwyd rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon a oedd newydd eu hachredu ym mis Medi 2019. Caiff y rhain eu cynllunio a'u gweithredu gan Bartneriaethau Sefydliadau Addysg Uwch a darparwyr, ac maent yn cynnwys gofyniad i hyrwyddo astudio cyfrwng Cymraeg a chynnwys o leiaf 25 awr o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o'r broses ddyrannu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020/21, rydym wedi cael gwared ar y capiau ar bob pwnc, ac eithrio Addysg Gorfforol, ac wedi gosod gofyniad ar ddarparwyr i weithio tuag at sicrhau bod 30% o'r unigolion a gaiff eu recriwtio i raglenni hyfforddi AGA yn gallu siarad Cymraeg. Nid yw hyn yn cynnwys y rheini sy'n cael eu recriwtio i addysgu Cymraeg fel pwnc. Bydd cynllun cymhelliant laith Athrawon Yfory ar gyfer y rheini sy'n hyfforddi i addysgu Cymraeg neu bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol uwchradd yn parhau i fod ar gael yn ystod blwyddyn academiaidd 2020/21. Mae dwy o raglenni newydd partneriaeth y Brifysgol Agored wedi cael eu hachredu, yn destun amodau. Bydd y rhaglenni yn cynnig Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) sy'n seiliedig ar gyflogaeth a TAR rhan-amser. Caiff y rhain eu cyflwyno'n raddol a bydd y ddwy raglen ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
5.4 Datblygu rhaglen ddysgu broffesiynol i sicrhau bod pob ymarferydd yn gallu datblygu ei sgiliau Cymraeg yn barhaus yn unol â'r disgwyliad yn y safonau proffesiynol newydd. Bydd hyn yn cynnwys ehangu'r Cynllun Sabothol ar gyfer Hyfforddiant laith Gymraeg a chefnogaeth drwy'r	Byddwn yn parhau i fuddsoddi £5m ychwanegol yn y gweithlu addysg i ddatblygu eu gallu i addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng Gymraeg. Mae gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol yn mynd rhagddo, a byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn ystod y flwyddyn adrodd. Bydd £2.7m o'r cyllid yn cael ei ddyrannu i'r consortia rhanbarthol i ddatblygu a darparu rhaglen ranbarthol o ddysgu proffesiynol i gefnogi dysgu ac addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
consortia rhanbarthol.	
5.5 Cefnogi y gweithlu o fewn y sector addysg ôl-16 i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy gynllun hyfforddiant penodol er mwyn cynyddu capasiti'r sector i ddysgu ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Byddwn yn parhau i gefnogi'r sector ôl-16 alwedigaethol gyda chefnogaeth ymarferol i gynnig arlwy eang i gynyddu capasiti'r sector ôl-16, er mwyn galluogi tiwtoriaid ac aseswyr i gefnogi eu dysgwyr i ddefnyddio rhagor o Gymraeg yn eu haddysg a'u hyfforddiant. Byddwn yn parhau i gefnogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnal rhaglen Cymraeg Gwaith yn y sector ôl-16, gan adeiladu ar y llwyddiant ac ymestyn y rhaglen i gefnogi darparwyr hyfforddiant.
5.6 Cynllunio seilwaith Cymru gyfan ar gyfer cynhyrchu adnoddau perthnasol ac amserol ar gyfer y cwrwrlwm a chymwysterau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda ffocws o'r newydd ar y sectorau ôl-16.	Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu model newydd o gyflenwi adnoddau dwyieithog ar yr un pryd. Byddwn yn blaenoriaethu'r anghenion am adnoddau ac yn sicrhau bod adnoddau addas a pherthnasol yn cael eu cyflenwi yn amserol i gefnogi dysgwyr 3-19 oed. Byddwn yn parhau i gefnogi'r sector ôl-16 i gynyddu'r arlwy o adnoddau i'r ymarferwyr a'r dysgwyr.
5.7 Datblygu mwy o adnoddau Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.	Byddwn yn cydweithio â Changen Anghenion Dysgu Ychwanegol y Llywodraeth i flaenoriaethu'r adnoddau sydd eu hangen ac yn eu comisiynu.
5.8 Cydweithio â Cymwysterau Cymru i gynyddu nifer y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yn y Gymraeg.	Mae cymwysterau yn rhan allweddol o'r gwaith y bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ei wneud wrth gyflawni'r cynllun gweithredu y cyfeirir ato yn 4.1. Byddwn yn parhau i gydweithio â Chymwysterau Cymru i sicrhau bod ystod addas o gymwysterau ac asesiadau priodol ar gael yn Gymraeg.

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Targed: Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

6. Y gweithle

Ein nod: cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
6.1 Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl drwy hybu a hwyluso cynnydd yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ein gweithlu ein hunain.	Yn unol â gofynion <i>Cymraeg 2050</i> a Safonau'r Gymraeg, rydym wedi paratoi strategaeth newydd ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sefydliad: <i>Cymraeg. Mae'n perthyn i ni gyd</i>. Rydym yn gweithio ar strategaeth hirdymor a dyma'r cam cyntaf a fydd yn ein tywys ar y daith hyd 2050. Mae'r strategaeth gyntaf felly ar gyfer 2020-2025 ac ar fin cael ei rhoi ar waith. Byddwn yn datblygu cynlluniau manwl ar gyfer gweithredu 10 cam y strategaeth sydd wedi'u seilio ar y themâu canlynol: • Arwain • Dysgu • Recriwtio • Technoleg
6.2 Parhau i lunio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o fewn cwmipas y ddeddfwriaeth er mwyn cynyddu nifer y gweithleoedd sy'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau Cymraeg.	Rydym wrthi'n datblygu rheoliadau newydd ar gyfer gwneud Safonau ar gyfer cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr gofal iechyd. Byddwn yn ystyried sut orau i weithredu argymhellion Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wrth baratoi'r rheoliadau hyn.
6.3 Datblygu a chyflwyno fframwaith cymorth cenedlaethol fel rhan o raglen newydd i hybu'r Gymraeg er mwyn annog busnesau a	Eleni bydd ein gwasanaeth newydd, <i>Helo Blod</i>, ar waith. Bydd Cymraeg Byd Busnes yn asio'n dynn gyda'n gwasanaeth llinell gymorth newydd yn ystod y flwyddyn adrodd. Bydd y ddau yn gweithio o dan yr un brand, sef <i>Helo Blod</i>. Nod <i>Helo Blod</i> yw cynyddu defnydd gweledol a chlywedol o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth cyfieithiadau hyd at 500 gair bob mis i gwmnïau a sefydliadau gwirfoddol (ni fydd sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gymwys i

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
sefydliadau'r trydydd sector i groesawu dwyieithrwydd yn y gweithle a chymryd camau i wneud hynny'n realiti.	dderbyn cymorth), gwasanaeth gwirio testun a gwasanaeth gwybodaeth. Bydd <i>Helo Blod</i> hefyd yn cyfeirio cwmnïau at ffynonellau o gymorth o bob math i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau wyneb yn wyneb.
6.4 Lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol – Deall Dwyieithrwydd – i sefydlu ymwybyddiaeth o'r iaith a chynllunio'r gweithlu fel rhan annatod o wasanaeth y sector cyhoeddus.	Bydd y rhaglen sy'n cyflwyno ymyraethau yn y gweithle (prosiect ARFER) yn parhau ac yn adrodd ar sail ystadegau cadarn er mwyn dangos cynnydd / lleihad yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Bydd y rhaglen beilot ymwybyddiaeth iaith gritigol i uwch arweinwyr sefydliadau Cymru'n parhau i gael ei threalu. Mae'r rhaglen hon, <i>Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog</i>, yn cael ei chynnal ar y cyd ag AcademiWales. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'n Hadolygiad o'r Siarter Iaith.
6.5 Ehangu cyfleoedd hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle i gyrff y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn gwella sgiliau Cymraeg yn y gweithle, gan roi pwyslais penodol ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.	Bydd y rhaglen Cymraeg Gwaith yn parhau yn ystod 2020-21. Bydd cyrsiau yn cael eu darparu i sectorau penodol yn ystod 2020-21, gan gynnwys darpariaeth ar-lein a dysgu o bell.

7. Gwasanaethau

Ein nod: cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
7.1 Adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 â'r nod o sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.	Yn dilyn adolygiad o Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn 2018-19, bydd Prosiect 2050 yn cael ei sefydlu yn ystod 2020-21. Bydd Prosiect 2050 yn gweithredu fel uned amlddisgyblaethol o fewn y Llywodraeth ac yn gyfrifol am yrru <i>Cymraeg 2050</i>. Byddwn yn penodi Pennaeth i Brosiect 2050 ynghyd â hyd at bedwar person allanol i gynnig arbenigedd cynllunio ieithyddol ar alw. Yn ogystal, mae Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth wedi'i gytuno rhwng Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol a Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn rhoi eglurder o ran cyfrifoldebau'r Llywodraeth a'r Comisiynydd a bydd yn parhau'n weithredol yn ystod 2020-21.
7.2 Parhau i gyflwyno Safonau'r Gymraeg i sefydliadau o fewn cwrpas y ddeddfwriaeth.	Rydym wrthi'n datblygu rheoliadau newydd ar gyfer gwneud Safonau ar gyfer cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr gofal iechyd. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen gyda'r gwaith polisi a fydd yn sail i baratoi Safonau ar gyfer cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr yng Nghymru. Byddwn yn ystyried sut orau i weithredu argymhellion Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wrth baratoi'r rheoliadau hyn.
7.3 Gwneud gwaith ymchwil i dechnegau newid ymddygiad er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn well mewn ymateb i'r nifer cynyddol o gwsmeriaid sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg.	Mae prosiect ARFER (gweler 6.4) yn parhau. Mae'r prosiect hwn yn arbrofi ag 'addewidion' ieithyddol er mwyn newid arferion defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliad. Byddwn hefyd yn defnyddio system gaffael y Llywodraeth i fwrw agenda technoleg ddwyieithog yn ei blaen drwy ddefnyddio rhestr wirio i'w chynnwys mewn manylebau, sy'n hwyluso creu meddalwedd a gwasanaethau technegol yn ddwyieithog.
7.4 Adolygu a gwerthuso'r cynnydd a wnaed o ran y pwyntiau gweithredu a amlinellwyd yn <i>Mwyn na geiriau</i>	Cafodd y gwaith interim ar gyfer y gwerthusiad ei gwblhau yn 2019 a bydd adroddiad Theori Newid yn cael ei gyhoeddi maes o law. Mae'r gwaith ar gyfer 2020 yn canolbwyntio ar y gwaith maes sy'n cynnwys ymgysylltu â chleifion am eu profiad a'r modd y gweithredir y cynnig rhagweithiol.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
<i>Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016–2019, gan gynnwys darparu'r cynnig rhagweithiol.</i>	Y nod yw cwblhau'r gwaith gwerthuso yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Yn y cyfamser, wrth i'r gwaith gwerthuso fynd yn ei flaen, mae cynllun gweithredu <i>Mwy na Geiriau</i> ar gyfer 2019 a 2020 wedi'i gytuno ac yn cael ei wireddu.
7.5 Fel rhan o'r Fframwaith Cymorth Cenedlaethol i Fusnesau, cynyddu dealltwriaeth a manteisio ar gyfleoedd i gryfhau gwasanaethau dwyieithog i gwsmeriaid.	Gweler 6.3.

8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Ein nod: sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
8.1 Sefydlu Rhaglen Hybu'r Gymraeg newydd i ddatblygu a darparu cynllun cydgysylltiedig i annog y defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywydau pobl.	Mae ein rhaglen o weithgareddau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn parhau. Bydd gwaith yn parhau fel rhan o <i>Gynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg</i> y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ôl-16 y sectorau hyn. Fel y nodwyd yn 6.3, bydd <i>Helo Blod</i>, ein gwasanaeth newydd i gymreigio busnesau, yn cael ei hyrwyddo'n sylweddol. Byddwn yn parhau i weithredu'n Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg.
8.2 Rhoi fframwaith ystyrlon ar waith er mwyn annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc ac i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, sefydliadau ieuenctid a grwpiau cymunedol.	Byddwn yn parhau i gefnogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg drwy: • ariannu cyfleoedd anffurfiol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth • cyhoeddi adroddiad gwerthuso'r Siarter Iaith ac yn gweithio ymhellach i gynyddu defnydd anffurfiol pobl ifanc o'r Gymraeg.
8.3 Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a ariennir gennym, gan sicrhau bod y cyfleoedd ariannu yn gydnaws â'r strategaeth yn ogystal ag anghenion lleol.	Mae'r cynllun grant cyfredol wedi'i ymestyn ar gyfer 2020-21 ac felly byddwn yn parhau i reoli'r grantiau sy'n cael eu cyllido i Hybu a Hyrwyddo Defnydd o'r Gymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
8.4 Trwy ein cynlluniau cyllido, cefnogi teuluoedd i annog eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.	Byddwn yn parhau i ariannu cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant drwy ein cynllun grant i Hybu a Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Byddwn yn cydgynllunio'n ofalus gyda'r tîm sy'n arwain ar bolisi newydd yn ymwneud â throsglwyddo iaith, i sicrhau bod holl gynlluniau'r Llywodraeth yn y maes wedi'u cydlynu'n ofalus i sicrhau'r canlyniadau gorau.
8.5 Cryfhau'r cysylltiadau â sefydliadau'r trydydd sector er mwyn cynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â denu a chadw gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.	Byddwn yn parhau i gydweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Changen Polisi Cymunedol a Thrydydd Sector y Llywodraeth i gynyddu gallu'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.
8.6 Datblygu rhaglen genedlaethol i gefnogi siaradwyr Cymraeg newydd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phartneriaid yn y gymuned.	Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, bydd cynllun "Siarad" yn parhau i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr ar draws Cymru i ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus.

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

9. Cymuned a'r economi

Ein nod: cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
9.1 Cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig <i>Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg</i>.	Cafodd TAN 20 ei gyhoeddi fis Hydref 2017. Bydd yn adnodd i ddylanwadu a chynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth iddynt ddatblygu ac adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol.
9.2 Datblygu pwyslais rhanbarthol newydd ym maes datblygu economaidd i helpu pob rhan o Gymru i ffynnu a chefnogi pob ardal i ddatblygu ei hunaniaeth nodweddiadol ei hun.	Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn 2019, bydd Arfor yn parhau i ddatblygu cynlluniau economaidd ar draws yr ardal. Erbyn diwedd y flwyddyn adrodd, y bwriad yw cyflwyno gwerthusiad annibynnol o raglen Arfor. Fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol gynnal cyfarfod Bwrdd Crwn Iaith ac Economi ym mis Hydref 2019. Yn bresennol, roedd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, swyddogion etholedig o awdurdodau lleol ar hyd y gorllewin ac aelodau o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg i ystyried sut orau y gellid cefnogi economi yr ardaloedd hyn, sydd hefyd yn gadarnleoedd i'r Gymraeg. Bydd y gwaith o ddatblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn parhau er mwyn sicrhau ffyniant economaidd ym mhob rhan o Gymru, gyda ffocws benodol ar ddarparu cyfleoedd gwaith safonol ble mae pobl eisoes yn byw. Y Gronfa Her Yr Economi Sylfaenol: cyhoeddwyd y 52 prosiect llwyddiannus ar sail ranbarthol a sectoraidd yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2019. Bydd ymgeiswyr yn dod yn rhan o Gymuned Ymarfer a fydd yn weithredol yn y gwanwyn, lle mae dysgu ar y cyd, lledaenu arfer da a gallu i dyfu (<i>scalability</i>) yn ofynion allweddol. Gwneir cyswllt hefyd rhwng y Gymuned Ymarfer a phrosiectau sy'n cael eu hariannu gan raglen Arfor, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth a'r hyn a ddysgir o ddeilliannau y ddwy raglen yn cael eu rhannu a'u lledaenu. Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2019, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer datblygu, drwy reoleiddio, fodel cyson ar gyfer gweithio'n rhanbarthol – Cydbwyllgorau Corfforaethol. Bydd Cydbwyllgor Corfforaethol yn 'gorff corfforaethol' ar wahân a bydd yn darparu mecanwaith cydlynol, cyson, syml, a reolir yn ddemocrataidd ar gyfer llywodraeth leol er mwyn cydweithredu a gweithio'n rhanbarthol. Y bwriad yw sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
	erbyn Ebrill 2021, a bydd ganddynt bwerau i alluogi awdurdodau lleol i gydweithio'n rhanbarthol ar weithgarwch datblygu economaidd. Bydd Cydbwyllgorau Corfforaethol hefyd yn gyfrifol am rai swyddogaethau Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol. Yn 2018, comisiynwyd gwaith ymchwil ym maes yr economi a'r Gymraeg gennym ni. Felly, yn sgil cyhoeddi <i>Adroddiad y Gymraeg a'r Economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau</i> fis Chwefror 2020, byddwn yn ystyried y prif ganfyddiadau o ran pa waith ymchwil gellid ei ystyried a'i ddatblygu ymhellach.
9.3 Rhoi'r fframwaith ar gyfer y Gymraeg a'r canllawiau a ddatblygwyd ar y cyd â datblygwyr Wylfa Newydd ar waith a'u hadolygu.	Y bwriad yw parhau â'r gwaith o ddatblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer asesu risgiau a buddion i'r Gymraeg.
9.4 Wrth ystyried cynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, byddwn yn chwilio am dystiolaeth sy'n dangos fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ystyriaeth lawn fel rhan o ddatblygiadau polisi a chynllunio'r awdurdodau lleol gan gynnwys adnabod cyfleoedd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy gytundebau adran 106.	Bydd y gwaith hwn yn parhau ar gyfer 2020-21, er mwyn adnabod cyfleoedd i gynorthwyo Awdurdodau Cynllunio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg wrth fabwysiadu a diwygio Cynlluniau Datblygu Lleol.
9.5 Buddsoddi mewn rhaglenni entrepreneuriaidd sy'n cefnogi	Mae Rhaglen Arloesi Arfor yn cynnig cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu syniadau menter. O fewn y rhaglen, mae pob un o'r pedwar awdurdod lleol yn datblygu cynlluniau penodol yn seiliedig ar anghenion lleol.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
siaradwyr Cymraeg yng nghefn gwlad.	Mae arloesi'n greiddiol i'r cynlluniau hyn, a bydd cymorth arbenigol yn cael ei ddarparu i unigolion er mwyn troi'r syniadau yn fentrau. Y bwriad yw cynnal gwerthusiad o'r rhaglen yn ystod y flwyddyn adrodd hon.
9.6 Gorchymyn i'r Comisiwn Seilwaith sicrhau bod y strategaeth yn cael ei hystyried wrth ddarparu cyngor i Weinidogion ynghylch buddsoddi mewn seilwaith.	Byddwn yn parhau i gyfathrebu â'r Comisiwn Seilwaith er mwyn sicrhau bod <i>Cymraeg 2050</i> yn cael ei ystyried wrth ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru.
9.7 Yn dilyn Brexit, sicrhau bod y gefnogaeth i'r diwydiant amaeth fel cyflogwr/busnes allweddol yng nghadarnleoedd y Gymraeg yn parhau.	Byddwn yn parhau i ystyried effaith Brexit ar y diwydiant amaethyddol a chymunedau gwledig yn ehangach. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2019, sef <i>Ffermio Cynaliadwy a'n Tir</i>, yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r cyd-destun gwleidyddol ac economaidd sy'n datblygu nawr ein bod yn y cyfnod pontio ar ôl Brexit. Mae ein cynigion wedi'u cynllunio i helpu ffermwyr i ffynnu wrth gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni ddatblygu system gymorth sy'n caniatáu i ffermwyr aros ar eu tir ac yng nghalon eu cymunedau. Drwy gydol 2020, byddwn yn symud ymlaen gyda'n hagenda cyd-gynllunio, gan gynnwys cymysgedd eang o gynrychiolwyr o'r gymuned amaethyddol i gyfrannu syniadau ac arbenigedd ymarferol i'r broses o ddatblygu'r polisi. Yn y cyfamser, bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cael ei ymestyn i 2021, yn amodol ar ddarparu cyllid digonol gan Lywodraeth y DU ar gyfer cymorth amaethyddol.
9.8 Sicrhau bod yna Gynlluniau Datblygu Lleol ar draws Cymru, a helpu i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol fel bo'u hangen. Dylai pob cynllun roi	Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gynllunio er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg wrth baratoi ac adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Strategol.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
ystyriaeth i'r Gymraeg.	
9.9 Lansio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd, a fydd yn ystyried y Gymraeg yn elfen bwysig.	Bydd gwaith yn parhau ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Bydd yn cynnwys strategaeth ofodol sydd â'r Gymraeg yn rhan bwysig ohoni. Bydd y Fframwaith yn dechrau dylanwadu ar gynllunio defnydd tir yn rhanbarthol ac yn lleol wedi iddo gael ei gyhoeddi.

10. Diwylliant a'r cyfryngau

Ein nod: sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
10.1 Sicrhau bod sefydliadau diwylliannol, celfyddydol a chwaraeon yng Nghymru yn gallu cael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt i hybu'r Gymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Byddwn yn disgwyl i'r cyrff a noddir gennym, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru, chwarae rhan flaenllaw i'n helpu ni i wneud hyn.	Caiff y nod hwn ei gefnogi ar draws y sector diwylliannol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys: - Mae ein partner gweithredu ym maes chwaraeon yng Nghymru, Chwaraeon Cymru, wedi ymrwymo i'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal. Mae ei adroddiad diweddaraf yn erbyn Safonau'r Gymraeg (https://www.chwaraeon.cymru/cynnwys/cyhoeddiadau-allweddol/) yn dangos sut caiff hyn ei adlewyrchu yn ei weithgareddau bob dydd. - Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Chomisiynydd y Gymraeg i gefnogi cyrff llywodraethu cenedlaethol ym maes chwaraeon yng Nghymru mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau. - Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn parhau i ddatblygu'r Archif Darlledu Cenedlaethol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, gan sicrhau y bydd yna gynnwys Cymraeg, ac mae'n cymryd camau i ddarparu cynnwys i Wicimedia. - Mae Amgueddfa Cymru yn parhau i weithio i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, ac mae'r adroddiad diweddaraf ar gael yma https://amgueddfa.cymru/media/47561/Adroddiad-Monitro-Blynyddol-y-Gymraeg-2018-19.pdf - Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i gefnogi'r Gymraeg, ac mae ei adroddiad ar yr hyn y mae'n ei wneud i gydymffurfio yma https://arts.wales/cy/node/713. Mae'r Cyngor Celfyddydau yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn ymchwilio i sut y gallai'r Ganolfan ei helpu'n ariannol i hyrwyddo ei wasanaethau o fewn sector y celfyddydau. Mae'r Cyngor Celfyddydau wedi comisiynu Elen ap Robert i fynd ati i Fapio Gweithgarwch Diwylliannol Cymraeg er mwyn nodi'r cyfleoedd i'r Cyngor Celfyddydau gydweithio ac integreiddio ei waith ag ymdrechion cyrff eraill. - Bydd Cadw yn parhau i gymryd camau i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ar safleoedd ei henebion drwy raglenni recriwtio a gwella sgiliau ei weithlu. Yn ystod 2020-21 yn benodol: - Gall Cadw ymrwymo i barhau i gynnig rhaglen hyfforddi sgiliau Cymraeg elfennol er mwyn gwella sgiliau iaith staff

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
	y rheng flaen. Bydd Cadw hefyd yn teilwra ei brosesau recriwtio i ddarparu'r gwasanaeth dwyieithog gorau posibl ym mhob un o'i henebion. Bydd gosod deunydd dehongli newydd yn ei safleoedd hefyd yn codi proffil yr iaith drwy roi mwy o amlygrwydd iddi. • At hynny, yn 2020-21, bydd Cadw hefyd yn cyflwyno dewis newydd o fwydydd yn ei safleoedd manwerthu – pob un â tharddiad Cymreig a byddant yn ddwyieithog. Bydd teithlyfrau Cadw, sydd wrthi'n cael eu datblygu, ar gael yn ddwyieithog. • Bydd yr Is-adran hefyd yn mynd ati i sefydlu Blaenoriaethau Diwylliannol newydd yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn. Bydd y gwaith hwn yn rhoi sylw teilwng i'r iaith, o ystyried y cysylltiad rhwng diwylliant a'r Gymraeg yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. • Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i ariannu'r Urdd i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg ledled y wlad. • Bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn parhau i gefnogi datblygiad gwasanaethau dwyieithog ar draws y sector cyhoeddus. • Mae Amgueddfa Cymru wedi nodi camau i'w cymryd fel rhan o gynllun gweithredol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys ymrwymiad i archwilio'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws rhaglenni cyhoeddus a sefydlu gwersi Cymraeg yn y gweithle i staff. • Mae'r Comisiwn Brenhinol yn parhau i gynnig gwersi Cymraeg i staff er mwyn parhau i gynyddu faint o Gymraeg a ddefnyddir yn y gweithle. • Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio i geisio gwyrddio'r dirywiad ymhlith cynulleidfaoedd theatr Gymraeg. Mae'r Cyngor Celfyddydau wedi cyhoeddi pecyn i artistiaid i ddatblygu dwyieithrwydd drwy'r celfyddydau. Mae'n ofynnol i holl gleientiaid Portffolio Celfyddydau'r Cyngor gyflwyno Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi comisiynu darn byr a fydd yn asesu'r ddarpariaeth farchnata Gymraeg gyfredol ar draws sector y celfyddydau yng Nghymru. • Bydd Chwaraeon Cymru, gyda chefnogaeth Comisiynydd y Gymraeg, yn ailedrych ar ei Strategaeth Iaith Gymraeg yn ystod 2020-21. Y nod yw cynnig rhagor o gefnogaeth i sefydliadau chwaraeon ledled y wlad i hyrwyddo'r Gymraeg ac i gynyddu defnydd ohoni.
10.2 Defnyddio'r Gymraeg fel rhan o 'Brand Cymru' i	Caiff ein hiaith unigryw ei dathlu fel rhan o frand Cymru Wales, ac rydym yn cymryd camau yn rheolaidd i hyrwyddo'r Gymraeg a'n diwylliant fel cryfder canolog ar lwyfan y byd. Yn fwy penodol, mae'r Gymraeg yn ysbrydoli elfennau craidd o'r brand,

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
hybu Cymru er mwyn denu twristiaeth a buddsoddiadau.	yn enwedig y ffurfdeip sydd wedi ennill gwobr, un o gonglfeini elfen weledol y brand. Mae ffurfdeip Cymru Wales yn adeiladu ar dreftadaeth deipograffyddol Cymru, ac fe'i dyluniwyd yn benodol i weithio mewn cyd-destun dwyieithog. Yn aml, mae ymgyrchoedd a gynhelir fel rhan o'n gwaith brand yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg, er mwyn hyrwyddo neges gref, unigryw am Gymru, a phwysleisio bod Cymru yn genedl allblyg, ddwyieithog. Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â'r diwydiant twristiaeth, rydym hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y busnesau hyn er mwyn rhoi profiadau lleol, personol i gwsmeriaid a hyrwyddo'r Gymraeg fel elfen allweddol o'r hyn sy'n gwneud eu cynnyrch, eu hardal a Chymru yn arbennig.
10.3 Drwy ein gweithgarwch noddi, sicrhau bod defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu, mewn digwyddiadau diwylliannol ac yng ngwaith bob dydd ein sefydliadau diwylliannol fel ei gilydd.	Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i ariannu'r Urdd i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg ledled y wlad. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn weithle cwbl ddwyieithog ac yn ymrwmo i gymryd camau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau dwyieithog ar draws y sector cyhoeddus. Mae Amgueddfa Cymru wedi nodi camau i'w cymryd fel rhan o gynllun gweithredol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys ymrwymiad i archwilio'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws rhaglenni cyhoeddus a sefydlu gwersi Cymraeg yn y gweithle i staff. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithio i geisio gwyrddroi'r dirywiad ymhlith cynulleidfaoedd theatr Cymraeg. Mae'r Cyngor Celfyddydau wedi cyhoeddi pecyn i artistiaid ddatblygu dwyieithrwydd drwy'r celfyddydau. Mae'n ofynnol i holl gleientiaid Portffolio Celfyddydau'r Cyngor gyflwyno Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi comisiynu darn byr a fydd yn asesu'r ddarpariaeth farchnata Gymraeg gyfredol ar draws sector y celfyddydau yng Nghymru. Caiff yr holl ddigwyddiadau sy'n derbyn cefnogaeth grant gan yr Adran Digwyddiadau Mawr eu hannog i gyflwyno polisi iaith Gymraeg er mwyn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnyddio'n effeithiol wrth lwyfannu a marchnata digwyddiadau. Maent yn bwriadu cefnogi nifer o ddigwyddiadau yn ystod 2020-21, gan gynnwys Gŵyl FOCUS Cymru a Rali Cymru GB. Mae'r Adran Digwyddiadau Mawr yn cydweithio'n agos â Thîm Hybu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac yn cyfeirio pob digwyddiad a gefnogir at y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y tîm hwnnw.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
	Bydd Cymru Greadigol yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau cyfleoedd masnachol i gerddoriaeth Gymraeg. Mae partneriaeth lwyddiannus wedi'i sefydlu gyda PYST, menter a ariennir ar y cyd ag Is-adran y Gymraeg, i ddarparu'r gwasanaeth dosbarthu digidol a labelu cyntaf i ganolbwyntio ar gerddoriaeth Gymraeg. Mae'r gwaith hwn yn digwydd yng Nghymru a thu hwnt mewn perthynas â sioeau a digwyddiadau rheolaidd. Mae Cymru Greadigol hefyd wedi bod yn gweithio ym maes arddangos i fynd â'r iaith dros y ffin. Mae PYST hefyd wedi treialu taith fisol o dair sioe Gymraeg gan ymweld â Glasgow, Manceinion a Llundain, a gweithio ochr yn ochr â hyrwyddwyr o fewn y marchnadoedd hynny. Rydym yn cydnabod bod yna heriau sydd wedi codi, yn hanesyddol, i berfformwyr cerddoriaeth Gymraeg. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd a mwy o gyfleoedd i artistiaid greu a pherfformio'n fasnachol mewn genres cerddorol o bob math drwy'r Gymraeg. Bydd Cymru Greadigol yn manteisio ar yr archwaeth sydd yna ar hyn o bryd am gerddoriaeth Gymraeg ac yn adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma, megis menter PYST, sydd wedi caniatáu i gerddorion cyfrwng Gymraeg gyrraedd cynulleidfaoedd a marchnadoedd newydd.
10.4 Defnyddio'n dylanwad i sicrhau bod y cynnig mewn cysylltiad â radio a theledu a'r holl wahanol fathau o gyfryngau yn parhau i fod yn gyfoes ac yn berthnasol i siaradwyr Gymraeg o bob oed.	Adeg dyfarnu neu adolygu trwyddedau radio ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru, byddwn yn parhau i godi gydag Ofcom a Llywodraeth y DU y dylid rhoi ystyriaeth i natur ddwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg, drwy bennu yn y cytundeb y bydd nifer penodol o oriau'n cael eu darlledu yn Gymraeg ynghyd â datganiad am gynnwys ar y we yn Gymraeg, megis testun, ffrydiau a chlipiau fideo. Dylid gosod amrywiaeth ieithyddol, yn enwedig o ran y Gymraeg, mewn gwasanaethau i Gymru, fel targed wrth ddyfarnu a rheoleiddio gwasanaethau i Gymru.
10.5 Parhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ar wahanol fformatiau, er mwyn bodloni'r	Drwy Gyngor Llyfrau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant cyhoeddi i sicrhau bod dewis eang o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys llyfrau a chylchgronau i oedolion ac i blant, a'r gefnogaeth i'r Gwasanaeth Newyddion Digidol. Bydd y broses o dendro ar gyfer y Gwasanaeth Newyddion Digidol yn parhau yn 2020-21.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
galw gan wahanol gynulleidfaoedd.	Yn ystod 2020-21, bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn parhau i roi sylw arbennig i lyfrau plant a phobl ifanc (i wireddu rhai o argymhellion Adroddiad Siwan Rosser). Bydd yn edrych ar ddulliau amgen (ee Realiti Estynedig (<i>Augmented Reality</i>)) o gyfathrebu gwybodaeth am lyfrau plant i rieni a phrynwyr llyfrau sydd ddim yn darllen Cymraeg. Bydd y Cyngor yn edrych ar ffyrdd o estyn y ddarpariaeth o lyfrau llafar Cymraeg drwy'r system grantiau a thrwy gydweithrediad â sefydliadau eraill. Bydd y Cyngor yn cynnal ymchwil i'r farchnad ddarllen Gymraeg a fydd yn darparu gwybodaeth am y gynulleidfa bosibl i'r diwydiant ac hefyd i'r broses o ddatblygu'r system gyfrifiadurol newydd. Yn dilyn penderfyniad Gwasg Gomer a CAA i beidio â chyhoeddi llyfrau, bydd y Cyngor yn edrych ar ffyrdd o ddenu ac annog cyhoeddwy newydd ac amddiffyn yr amrywiaeth a'r cyfanswm o lyfrau a ddarperir ar gyfer y farchnad.

11. Cymru a'r byd ehangach

Ein nod: sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i greu pontydd rhwng Cymru a'r byd a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
11.1 Arwain drwy esiampl drwy gofleidio ein hiaith a'n diwylliant unigryw wrth gysylltu â'r byd ehangach, gan sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle i'w plethu i mewn i ddigwyddiadau cenedlaethol pwysig.	Caiff yr holl ddigwyddiadau sy'n derbyn cefnogaeth grant gan yr Adran Digwyddiadau Mawr eu hannog i gyflwyno polisi iaith Gymraeg er mwyn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnyddio'n effeithiol wrth lwyfannu a marchnata'r digwyddiad. Y bwriad yw cefnogi nifer o ddigwyddiadau yn ystod 2020-21, gan gynnwys Gŵyl FOCUS Cymru a Rali Cymru GB. Mae'r Adran Digwyddiadau Mawr yn cydweithio'n agos â Thîm Hybu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac yn cyfeirio pob digwyddiad a gefnogir at y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y tîm hwnnw. Mae'r Llywodraeth yn rhoi grant blynyddol o £90,000 i Ysgol Gymraeg Llundain a bydd hynny'n parhau yn 2020-21. Mae'r Ysgol hon yn hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain ac yn darparu addysg gynradd Gymraeg i blant, y mae nifer ohonynt yn dychwelyd, maes o law, i'r system addysg Gymraeg yng Nghymru. Byddwn yn parhau â'r prosiect i roi profiad ymarferol i athrawon o Gymru ym Mhatagonia. Rheolir y prosiect gan y Cyngor Prydeinig ar ran Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chymdeithas Cymru-Ariannin, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd, yr Urdd a'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cadeirio grŵp gwaith leithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig Gwyddelig. Byddwn yn parhau i fanteisio ar y fforwm hwn i drafod, i rannu arferion da ac arbenigedd gyda phobl o wahanol gefndiroedd. Mae'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yn rhwydwaith Ewrop-gyfan sy'n gweithio ym maes polisi a chynllunio ieithyddol ar ran leithoedd Cyfansoddiadol, Rhanbarthol a Gwladwriaethol Bach (CRSS) ledled Ewrop. Mae aelodau'r NPLD yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â phrifysgolion a chymdeithasau. Prif nod yr NPLD yw codi ymwybyddiaeth ar lefel Ewropeaidd o bwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol. Nod arall yw hwyluso'r broses o gyfnewid arferion gorau ymysg llywodraethau,

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
	gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr, ymchwilwyr ac arbenigwyr o bob rhan o Ewrop. Ar hyn o bryd, Cymru sydd â rôl Dirprwy Gadeirydd yr NPLD, a bydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhyngwladol.
11.2 Arwain drwy esiampl fel Llywodraeth, gan hybu'r Gymraeg ar lwyfan byd-eang a chroesawu manteision bod yn wlad ddwyieithog drwy ddylanwadu ar holl ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu'r Llywodraeth fel bod ein statws fel gwlad ddwyieithog yn cael ei weld fel elfen werthu unigryw yn y byd ehangach.	Yn unol â'r ymrwymiad yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd y mis Ionawr 2020, byddwn yn: • gwneud yn siŵr bod Cymru yn cael ei hyrwyddo fel gwlad ddwyieithog yn ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol • adeiladu ar y gwaith a ddigwyddodd o dan adain Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO yn 2019 i rannu stori'r Gymraeg a'n hymdrechion i gefnogi'r Gymraeg gyda gwledydd amlieithog eraill • chwilio am gyfleoedd i rannu negeseuon ein hymgyrchoedd cenedlaethol y tu allan i Gymru. Pan fyddwn ni'n gweithredu dramor, rydym ni bob amser yn ceisio hyrwyddo'r Gymraeg fel un o asedau mwyaf gwerthfawr Cymru. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol ac y byddwn yn parhau i'w wneud yn ystod 2020-21: annog pobl i recordio rhywbeth ar gamera yn Gymraeg a'i rannu ar y cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'n hymdrechion cymell tawel o amgylch Dydd Gŵyl Dewi er enghraifft; cynhyrchu bwydlenni dwyieithog ar gyfer digwyddiadau rhyngwladol; defnyddio'r Gymraeg mewn areithiau; defnyddio'r iaith fel rhywbeth i gymell sgwrs mewn derbyniadau / digwyddiadau gan gynnwys cynnal gwersi iaith pan fo hynny'n bosibl. Yn ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol, rydym yn gwneud yn siŵr bod Cymru yn cael ei hyrwyddo fel gwlad ddwyieithog. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y Strategaeth Ryngwladol newydd. Yn ystod 2018-19, fe wnaeth y Prif Weinidog lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd â Chymuned Ymreolus y Basgiaid. Mae cydweithredu ym maes polisi ac ymchwil iaith yn rhan o'r cytundeb hwn a bydd y cydweithredu'n parhau eleni. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Quebec i fwrw ymlaen â Datganiad o Fwriad Quebec-Cymru a lofnodwyd ar 25 Chwefror 2020, sy'n cynnwys ymrwymiad i gydweithio ar bolisiau iaith. Hefyd, gweler 10.2.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
11.3 Gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy i ymwelwyr a'i gwneud yn haws iddynt ddod ar draws y Gymraeg a'i dysgu drwy dreialu ymyriadau, fel Prosiect Pecyn Croeso â Chyngor Sir Ynys Môn, ac os yw hwn yn llwyddiant, ei ehangu i awdurdodau lleol eraill.	Byddwn yn dod ynghyd â'r holl randdeiliaid perthnasol er mwyn adolygu'r prosiect ac ystyried ymyraethau newydd ar gyfer y dyfodol cyn ystyried ehangu'r cynllun ymhellach.
11.4 Datblygu gwell cefnogaeth i wella'r broses o integreiddio mewnddyfodiaid â chymunedau Cymraeg eu hiaith, yn debyg i Raglen Voluntariat per Ia Llengua yng Nghatalwnia.	Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, bydd cynllun "Siarad" yn parhau i gynnig cefnogaeth i ddysgwyr ar draws Cymru i ddefnyddio eu Cymraeg gyda siaradwyr mwy hyderus.

12. Technoleg ddigidol

Ein nod: sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
12.1 Buddsoddi mwy mewn ymchwil ac arloesi ym maes technoleg iaith i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn yr oes ddigidol.	Byddwn yn parhau i weithredu'n Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg a gyhoeddwyd ar 23 Hydref 2018. Bydd cyhoeddiadau'n cael eu gwneud gydol y flwyddyn, fel y bo'n briodol.
12.2 Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi, i gydweithredu ac i rannu adnoddau a thechnegau i gefnogi ein seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiaduron, technoleg deallusrwydd artiffisial (AI), adnabod llais, ac ati) er mwyn iddi fod yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ar ddyfeisiau electronig.	Mae'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn mynd i'r afael â'r holl feysydd hyn.
12.3 Cefnogi datblygu adnoddau digidol newydd dwyieithog i'w defnyddio mewn ysgolion, yn y gweithle ac wrth gymdeithasu.	Ysgolion: byddwn yn adnabod anghenion ac yn comisiynu adnoddau i fodloni gofynion y cwricwlwm a chymwysterau. Y gweithle: un o dair prif thema ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yw Cyfieithu â Chymorth Cyfrifiadur (CAT). Cymdeithasu: mae Prifysgol Bangor wedi gwella system lleferydd-i-destun Cymraeg yng nghyd-destun prosiect Maccsen, sy'n derbyn cymorth ariannol y Llywodraeth.
12.4 Parhau i gymell y prif gwmnïau	Byddwn yn hwyluso deialog gyda'r prif gwmnïau TG er mwyn datblygu'r seilwaith technoleg iaith Cymraeg sydd ei angen ar y cwmnïau mawr i gynnig cefnogaeth i siaradwyr Cymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
technoleg i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt yn y Gymraeg.	Gwneir hyn fel rhan o'r gwaith o roi'r Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg ar waith.
12.5 Sicrhau bod y rhai sy'n cael grantiau gennym a sefydliadau sy'n hybu'r Gymraeg yn defnyddio technoleg yn dda, gan gynnwys systemau data, cyfathrebu mewnol, y cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau marchnata.	Byddwn yn sicrhau bod y meysydd technoleg a marchnata yn cael sylw priodol gan ein partneriaid grant drwy ein grant i Hybu a Hyrwyddo'r Defnydd o'r Gymraeg.
12.6 Cefnogi ymdrechion i gynyddu nifer y tudalennau Cymraeg ar Wicipedia.	Bwriedir parhau gyda'r anogaeth i gymunedau o wirfoddolwyr Wikipedia Cymraeg drwy gynnig cymorth ariannol i gefnogi gweithdai a'r broses o greu erthyglau Cymraeg drwy ddulliau awtomatig.

13. Seilwaith ieithyddol

Ein nod: sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu'r Strategaeth *Cymraeg 2050*.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
13.1 Adolygu'r strwythurau presennol i sicrhau bod gennym bolisi corpora cynaliadwy (h.y. casgliad mawr o destunau wedi'u hargraffu neu recordiadau sain) ar gyfer y Gymraeg.	Byddwn yn ymgynghori ar bolisi i gwmpasu'r gwahanol elfennau ar seilwaith ieithyddol y Gymraeg e.e. corpora, geiriaduron, terminoleg, a'r proffesiwn cyfieithu, gyda'r nod o gyhoeddi polisi maes o law.
13.2 Cefnogi cynhyrchu rhagor o adnoddau geiriadurol, corpws a terminolegol o ansawdd uchel i gefnogi dysgwyr a siaradwyr rhugl.	Byddwn yn ymgynghori ar bolisi i gwmpasu'r gwahanol elfennau ar seilwaith ieithyddol y Gymraeg e.e. corpora, geiriaduron, terminoleg, a'r proffesiwn cyfieithu, gyda'r nod o gyhoeddi polisi maes o law. Bydd y polisi hwn yn ystyried sut orau i gydlynw gwahanol elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg er budd y defnyddiwr, boed yn athrawon neu'n ddisgyblion ysgol, yn fyfyrwyr, yn ddysgwyr, yn unigolion yn eu gwaith bob dydd, neu'n arbenigwyr (e.e. cyfieithwyr proffesiynol).
13.3 Parhau i gefnogi cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg fel bod gan y sector y gallu i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu achrededig o safon, a bod y systemau diweddaraf a ddefnyddir o ran cyfieithu peiriant ar gael i'r sector i wella cywirdeb, cyflymder a chysondeb cyfieithu.	Mae dyfodol y proffesiwn cyfieithu yn un o'r themâu dan sylw wrth i ni ddatblygu polisi ar gyfer seilwaith ieithyddol y Gymraeg. Bydd y ffordd y bydd y polisi hwn yn cyd-dynnu â Chynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn dod â buddion ychwanegol i'r proffesiwn cyfieithu. Byddwn yn parhau i gefnogi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, sy'n cefnogi ac yn achredu cyfieithwyr yng Nghymru.

14. Cynllunio ieithyddol

Ein nod: sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
14.1 Sefydlu bwrdd rhaglen i sefydlu egwyddorion cynllunio ieithyddol a'r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar draws gwaith y Llywodraeth.	Bydd Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i adolygu cynnydd yn erbyn y strategaeth. Bydd y Bwrdd hefyd yn gyfrwng i brif-ffrydio egwyddorion <i>Cymraeg 2050</i> i holl feysydd gwaith y Llywodraeth yn ôl y galw.
14.2 Lansio rhaglen hyfforddi genedlaethol – Deall Dwyieithrwydd.	Gweler 6.4. Arwain Mewn Gwlad Ddwieithog: mae'r rhaglen ymwybyddiaeth iaith gritigol hon yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddatblygu uwch arweinwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n defnyddio strwythurau AcademiWales. Ystyriwn fod llawer o agweddau eraill ar ein gwaith hefyd yn rhan o'r rhaglen hon e.e. agweddau ar raglen Cymraeg i Blant, Hyfforddiant Defnydd Iaith (rhaglen o ymyraethau i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith a chynyddu'r defnydd anffurfiol ohoni mewn ysgolion), y Siarter Iaith, a'r Polisi Trosglwyddo Iaith y cyfeirir ato uchod yn 1.1.
14.3 Gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi eu hymdrechion i adeiladu capasiti i gynllunio ar gyfer y Gymraeg, gan eu cefnogi yn y gwaith o weithredu a chyd-gordio y strategaethau sirol ar gyfer hybu'r Gymraeg, Cynlluniau Strategol	Byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi ac ymgynghori ar eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft newydd yn ystod 2020/21. Bydd y cynlluniau newydd yn cychwyn yn 2021. Mae'r trefniadau newydd ar gyfer awdurdodau lleol yn cynnwys cyflwyno cynlluniau strategol tymor hwy (10 mlynedd) yn ogystal â chynlluniau wedi'u paratoi ar sail targedau clir ac uchelgeisiol wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Mae'r targedau wedi'u cyfrifo fel eu bod yn cyfateb i gerrig milltir addysg <i>Cymraeg 2050</i> i gynyddu canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg i 30% erbyn 2031 (Gweler 3 a 3.4). Byddwn yn paratoi cynllun a fydd yn amlinellu dulliau newydd a chreadigol, gan wneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg a

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
y Gymraeg mewn Addysg, a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	phlatformau digidol er mwyn cryfhau ein cysylltiadau gyda'n partneriaid. Bydd cyfle i roi hyn ar waith drwy'r Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg a'r CSCA. Gweler hefyd 3.3, 3.5 a 3.7.

15. Gwerthuso ac ymchwil

Ein nod: parhau i adeiladu ar ein tystiolaeth am y Gymraeg a'i siaradwyr fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd ein hymyriadau a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
15.1 Parhau i ddatblygu ein sail dystiolaeth, a nodi cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid ymchwil yng Nghymru a thu hwnt pryd bynnag y mae hynny'n bosibl.	Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn cydweithio â swyddogion ar draws y Llywodraeth i weithredu'r Cynllun Tystiolaeth ar gyfer y Gymraeg 2020-21. Rydym yn bwriadu cynnal ymchwil i ddatblygu ein dealltwriaeth o nodweddion addysg drochi effeithiol, a byddwn yn cyhoeddi gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol i ymarferwyr yn ystod y flwyddyn adrodd. Byddwn hefyd yn cwblhau'r gwerthusiad o'r Siarter Iaith. Rydym yn bwriadu ystyried prif ganfyddiadau <i>Adroddiad y Gymraeg a'r Economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau</i> o ran pa waith ymchwil gellid ei ystyried a'i ddatblygu ymhellach yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i ddatblygu Fframwaith Gwerthuso ar gyfer <i>Cymraeg 2050</i>, i gefnogi'r broses o gynllunio tystiolaeth y tu hwnt i 2020-21. Bydd y gwaith o brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws gweithgaredd ymchwil y Llywodraeth yn parhau. Bydd y pwyslais yn 2020-21 ar gynnig arweiniad a chefnogaeth gyda'r nod o wneud yr arfer o brif-ffrydio yn gynaliadwy ar draws meysydd ymchwil. Byddwn yn cynnal partneriaethau ymchwil ac yn creu rhai newydd, yng Nghymru a thu hwnt, drwy gyflwyno mewn cynadleddau lle bo hynny'n bosibl, a thrwy gyfrannu at y cydweithio sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chymuned Ymreolus y Basgiaid. Byddwn yn meithrin capasiti ymchwil at y dyfodol drwy ddarparu cefnogaeth i ysgoloriaethau doethurol ym maes dysgu iaith.
15.2 Archwilio ffyrdd o ychwanegu at ein dealltwriaeth o brofiadau ieithyddol siaradwyr yn ystod eu hoes. Byddwn hefyd yn archwilio dulliau o gasglu gwybodaeth ynghylch defnydd siaradwyr o'r Gymraeg drwy	Cafodd Arolwg Defnydd Iaith newydd ei gomisiynu yn 2019. Cychwynnodd y gwaith maes ddechrau mis Gorffennaf 2019. Bydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn dadansoddi a chyhoeddi canlyniadau interim o naw mis cyntaf yr arolwg yn ystod hydref 2020. Byddwn hefyd yn parhau i ddadansoddi data Astudiaeth Hydredol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n cynnwys data Cyfrifiad 1971 tan 2011, er mwyn gweld sut y mae gallu unigolion yn y Gymraeg yn newid ar hyd eu bywydau. Byddwn yn parhau i ddadansoddi data gweinyddol maes addysg er mwyn deall mwy am ddilyniant addysg cyfrwng Cymraeg wrth i ddisgyblion symud o un cam addysg i'r nesaf.

Amcan 2017–21	Blwyddyn adrodd 2020–21
Arolygon Defnydd Iaith.	Wrth ddatblygu'r Fframwaith Gwerthuso ar gyfer <i>Cymraeg 2050</i> , byddwn yn creu rhaglen ymchwil a fydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o daith ieithyddol unigolion ar hyd cwrs bywyd.